IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 14 MEDI 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Mackie, Murphy a/ac Jacobsen |

23 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

24 : CAIS AM HYSBYSIAD DIGWYDDIAD DROS DRO - Y DEPO, DUMBALLS ROAD

Ymgeiswyr: Nicholas Saunders, cynrychiolwyd gan Justin Davies

Awdurdod Cyfrifol: Gillian Jones, Gwasanaethau Cymdogaethau

Y Cais

Derbyniwyd Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ar 5 Medi 2018 gan Mr Nicholas Saunders i gael awdurdod ar gyfer digwyddiad dros dro yn Y Depo, Dumballs Road, Caerdydd.

Roedd yr hysbysiad mewn perthynas â digwyddiad oedd rhwng 17:00 ar 21 Medi a 01:00 ar 22 Medi 2018. Cynigir bod TEN yn caniatáu gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle, darparu adloniant wedi'i reoleiddio a darparu lluniaeth gyda'r hwyrnos mewn perthynas â seremoni gwobrau.

Mae gwrthwynebiad wedi'i dderbyn gan y tîm Llygredd Sŵn ac atodwyd copi o'r gwrthwynebiad at yr adroddiad. Roedd angen i'r Is-bwyllgor benderfynu a ddylai Gwrth-hysbysiad, a fyddai'n rhwystro'r gweithgaredd trwyddedadwy rhag gael ei awdurdodi, gael ei gyhoeddi.

Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol

Anerchodd Gillian Jones yr Is-bwyllgor. Dywedwyd wrth yr Aelodau i'r adran Iechyd yr Amgylchedd wrthwynebu'r Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ar y sail yr amcan trwyddedu – atal niwsans cyhoeddus.

Dywedodd Gillian Jones mai hi oedd y prif swyddog achos sy'n ymdrin gyda chwynion sy'n gysylltiedig â'r Depo. Rhoddwyd defnydd dros dro o'r adeilad i'r safle tan fis Gorffennaf 2018 a dylai'r defnydd buddiol o'r safle fod wedi dod i ben. Roedd nifer o bryderon gan y swyddog am y cais.

Mae sŵn o'r safle wedi effeithio ar drigolion lleol ac mae nifer o gwynion wedi bod am gerddoriaeth wedi'i mwyhau, canu, curo ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ym mis Mai 2016, aeth swyddogion i gartref trigolion yn ystod digwyddiad i dystio niwsans sŵn statudol. Cyhoeddwyd Hysbysiad Lleihau Sŵn am gerddoriaeth wedi'i mwyhau i'r safle. Ym mis Mehefin 2016, torrwyd yr hysbysiad lleihau sŵn, eto am gerddoriaeth wedi'i mwyhau a rhoddwyd gwybod i'r rheolwyr y byddai achosion

cyfreithiol yn dechrau.  Ym mis Hydref 2016, torrwyd yr Hysbysiad Lleihau Sŵn am yr ail dro.

Yn dilyn cyngor gan Dîm Cyfreithiol y Cyngor, cafodd rhybudd ei gynnig a'i dderbyn gan Y Depo am ddau drosedd.

Tystiwyd trydydd toriad gan swyddogion ym mis Mehefin 2018 ac mae ail adroddiad erlyn yn cael ei baratoi ac mae’r Llys Ynadon yn aros amdano.  Mae Ms Jones yn darllen darnau o ddatganiadau gan swyddogion adran Iechyd yr Amgylchedd sy’n dweud bod modd clywed geiriau caneuon, geiriau person sy’n defnyddio meicroffon a thonau bas.  Codwyd pryderon hefyd am y rheolaeth a natur y gweithgareddau sy’n cael eu cynnal yn y safle, oedd wedi’i drwyddedu'n wreiddiol fel bwyty, ac sydd wedi'i ddefnyddio'n fwy gan ei fod yn cynnal digwyddiadau sy'n denu niferoedd mawr o bobl.

Roedd yr Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro am seremoni gwobrau ar gyfer 300 i 400 o bobl.  : Byddai noddwyr yn gadael y digwyddiad yn hwyrach yn y nos ond roedd cwynion eisoes yn cael eu derbyn am gwsmeriaid yn gadael ar yr awr orffen arferol.  Awgrymodd Ms Jones, pe bai noddwyr yn cael agor yn hwyrach i werthu alcohol, y byddai wedyn yn fwy tebygol y byddai mwy o alcohol yn cael ei yfed ac y byddai sŵn o bobl yn gadael y safle yn waeth.  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod strwythur yr adeilad yn wael o ran inswleiddio sŵn.  Mae hefyd yn agos at eiddo preswyl, tua 80 metr i ffwrdd yw’r un agosaf.  Gellir disgwyl yn rhesymol y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn y gwely am 2300.

Daeth Ms Jones i ben trwy ddweud nad yw hysbysiad lleihau sŵn yn cael ei gyhoeddi i bob safle.  Yn ei 7 mlynedd yn gweithio yng Nghaerdydd, mae hi wedi cyhoeddi 2 hysbysiad lleihau sŵn ac i’r Depo oedd un o’r rhain.

<u>Sylwadau’r Ymgeisydd</u>

Cyflwynodd Justin Davies y cais.  Dywedodd Mr Davies fod Aelodau o’r Is-bwyllgor wedi clywed pryderon yn gysylltiedig yn bennaf â digwyddiadau a gynhaliwyd yn 2016. Nid oes unrhyw problemau sy'n gysylltiedig â sŵn wedi'u cael rhwng 2016 a Mehefin 2018. Roedd hefyd yn bwysig dangos y gwahaniaeth rhwng digwyddiadau sydd â cherddoriaeth wedi'i mwyhau a rhai nad oes ganddynt y gerddoriaeth o'r fath.

Ar gyfer Gwobrau Dechrau Busnes Cymru – seremoni wobrau o arwyddocâd sylweddol i fusnesau ifanc ledled Cymru oedd yr Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro.  Cyfrifoldeb y rheolwr oedd sicrhau y rheolwyd y digwyddiad yn dda ac na achosodd unrhyw broblemau.  Dyma’r drydedd flwyddyn mae’r Depo wedi cynnal y digwyddiad hwn.  Roedd y ddwy flwyddyn flaenorol o’r un natur yn union ac ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau.  Mae hyn yn berthnasol gan y cafwyd y cwynion a arweiniodd at yr hysbysiad lleihau sŵn cyn y ddwy seremoni gwobrau flaenorol.

Dywedodd Mr Davies y rhagwelwyd y byddai'r digwyddiad yn dod i ben am tua 2300, ond byddai estyn yr oriau yn rhoi cyfle i bobl i rwydweithio ar ôl i’r seremoni gwobrau ddod i ben.  Roedd angen tocyn ar gyfer y digwyddiad gyda 300 o bobl yn mynd iddo.

Cylchredodd Mr Davies gopïau o'r Weithdrefn Wasgaru a’r Siartr Gymdogion a weithredir gan y Depo.  Dywedwyd bod y broses wasgaru'n cael ei rheoli a’i bod yn

raddol.  Hefyd derbyniodd yr Aelodau grynodeb o’r gwaith sy’n cael ei wneud yn y safle i leihau unrhyw sŵn sy’n dod o’r adeilad.

Gan gyfeirio at yr hysbysiad lleihau sŵn yn cael ei dorri ym mis Mehefin 2018 y cyfeiriodd Gillian Jones ato, dywedodd Mr Davies fod y gŵyn hon yn honiad ac nad yw wedi’i phrofi eto.  Nid yw’r Depo wedi derbyn unrhyw dogfennaeth am y toriad honedig ac felly ni ddylai’r Is-bwyllgor ystyried bod hyn yn bwysig.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y tîm rheoli yn y Depo yn ymwybodol iawn bod sylw arnynt a’i bod yn glir fod rhaid cynnal y digwyddiad hwn yn gywir ac yn unol â’r amcanion trwyddedu.  Gallai methu â gwneud hyn arwain at adolygiad o’r drwydded safle neu offer yn cael ei atafaelu.

Cyflwynodd Mr Davies adroddiad asesiad sŵn wedi’i wneud gan ymgynghorydd allanol acwstig annibynnol.  Dangosodd yr adroddiad lleihau yn y sŵn sy’n dod o’r safle.  Gofynnwyd i’r Aelodau asesu a fyddai’r digwyddiad arfaethedig yn cael effaith negyddol ar yr amcanion trwyddedu.

PENDERFYNWYD – bod yr Is-bwyllgor yn cytuno i beidio â chyhoeddi Gwrth-hysbysiad.

## 25 : CAIS AM AMRYWIO TRWYDDED EIDDO - THE PAVILION, ASHCROFT PLACE

Ymgeiswyr: cynrychiolwyd gan Brendan McAloon, Clwb Rygbi a Phêl-droed y Tyllgoed

Awdurdod Cyfrifol: PC Tim Davies a Claire Dewhurst Heddlu De Cymru, Simon Thayer, Rheoli Llygredd

Partïon â Diddordeb Y Cynghorydd Lisa Ford
John Walton

<u>Y Cais</u>

Derbyniwyd cais i amrywio Trwydded Safle gan Clwb Rygbi a Phêl-droed y Tyllgoed mewn perthynas â'r Pafiliwn, oddi ar Ashcroft Crescent, Y Tyllgoed, Caerdydd.

Mae’r Drwydded Safle bresennol yn caniatáu’r canlynol ar hyn o bryd:

Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:

Dydd Gwener: 17:00 tan 19:00
Sadwrn: 16:00 tan 19:00
Dydd Sul: 12:00 tan 15:00

Mae’r ymgeisydd wedi gwneud cais am ddiwygio oriau trwyddedadwy fel a ganlyn:

Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:
Dydd Llun i ddydd Sul: 12:00 tan 23:00

Diwygiad i'r cynllun cymeradwy i ymestyn yr ardal allanol y caniateir yfed alcohol ynddi (mae copi o'r cynllun wedi'i atodi).

Sylwadau'r Awdurdod Cyfrifol

Anerchodd PC Tim Davies yr Is Bwyllgor. Hysbyswyd yr Aelodau fod Heddlu De Cymru yn gwrthwynebu'r cais ar sail atal niwsans cyhoeddus ac atal trosedd ac anrhefn a diogelwch y cyhoedd,

Dywedodd Claire Dewhurst y gwnaethpwyd cais am y drwydded safle wreiddiol ar 21 Awst 2017. Ar yr adeg honno aeth Claire Dewhurst i'r safle gyda Sarsiant Justin Hardwicke. Gwnaethpwyd sylwadau ac fe'u derbyniwyd gan yr ymgeiswyr. Cynhwysodd y sylwadau hyn y gofynion i osod TCC, rhoi cynllun Herio 25 ar waith a llyfr digwyddiadau, ac ati. Rhoddwyd y drwydded ym mis Tachwedd 2017. Cyhoeddwyd hysbysiad cau ym mis Rhagfyr 2018 am dorri amodau'r drwydded, yn bennaf gan nad oedd TCC ar waith na llyfr digwyddiad.

Ar 5 Chwefror 2018 aeth PC Tim Davies i'r safle a dywedwyd wrtho fod system TCC yno bellach. Fodd bynnag, nid oedd y system yn cydymffurfio â gofynion amod y drwydded safle. Dilëwyd yr hysbysiad cau ar 15 Chwefror 2018 yn y pen draw.

Ar 5 Mawrth 2018 aeth PC Davies i'r safle ar ôl cwynion am anhrefn a digwyddiadau eraill i'r awdurdod Trwyddedu. Gwyliodd swyddogion fideo TCC Hysbysiad Digwyddiad Dros Dr ar 24 Chwefror 2018. Dywedwyd wrth yr Aelodau i'r digwyddiad ddechrau 7 munud cyn yr amser a ganiatawyd a rhoddwyd gwybod i'r Goruchwylydd Safle Dynodedig (GSD) am hyn.

Aeth PC Davies i gyfarfod gyda'r Cynghorydd Ford a thrigolion eraill lle mynegwyd pryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol, sŵn ac yfed a gyrru honedig. Dywedwyd wrth trigolion i ffonio Heddlu De Cymru os hoffent adrodd am weithgareddau troseddol. Ar ôl hynn derbyniwyd adroddiad o droseddau yfed a gyrru'n digwydd. Aeth yr heddlu i'r safle ond nid oedd unrhyw gerbydau wedi'u parcio yn y maes parcio.

Ym mis Mai 2018, cynhaliwyd Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro. Roedd y safle yn brysur iawn gyda nifer fawr o bobl yn mynd iddo. Cododd PC Davies bryderon ynghylch pobl yn gadael y safle gydag alcohol. Dywedodd y GSD nad oes pŵer ganddo i atal pobl rhag gadael y safle. Gofynnodd PC Davies fod dau gamera TCC ychwanegol yn cael eu gosod yn y safle i wylio'r ardal allanol a'r maes parcio. Dywedodd PC Davies y byddai'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn rhan o'r gwaith o adnewyddu'r safle.

Ar ôl hynny, derbyniodd PC Davies ffurflen ymholiad gan y GSB ynghylch y broses ar gyfer amrywio'r drwydded safle. Cyfeiriodd y GSD at adran Trwyddedu Cyngor Caerdydd. Mewn cyfarfod canlyniadol gyda'r GSD, gofynnodd PC Davies pam oedd y cais ar gyfer 2300 7 diwrnod yr wythnos. Dywedwyd wrth PC Davies i'r ymgeiswyr wneud cais am awr orffen o 2300 fel offeryn bargeinio ac mai 2100 oedd yr awr orffen oeddent am ei chael.

Gofynnwyd i'r GSD hefyd am y gwaith i reoli'r ardal allanol. Dywedwyd wrth PC Davies fod yr ymgeiswyr yn bwriadu codi rhwystrau gwaredu dros dro a fyddai cymryd lle yn y maes parcio. Roedd pryderon gan PC Davies na fyddai rhwystrau o'r

fath yn diogelu pobl sy'n sefyll yn yr ardal yn ddigonol o geir sy'n symud yn y maes parcio. Ni all y rhwystrau stopio cerbyd sy'n symud. Felly mae'r cynnig hwn yn achosi risg i ddiogelwch y chyhoedd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oes TCC wedi'i osod o hyd i wylio'r ardal allanol a'r maes parcio. Yn wreiddiol gofynnodd PC Davies am hyn ym mis Mai 2018. Gwnaethpwyd Heddlu De Cymru sylwadau ar y cais a gydnabuwyd gan y GSD. Nid oes unrhyw fwy o ohebiaeth neu ymgynghoriadau ar y materion hyn wedi'u cael.

Siaradodd Siarsiant Ben McQuire o Dîm Plismona Cymdogaeth y Tyllgoed â'r Is-bwyllgor. Dywedodd Siarsiant McQuire fod pryderon am y safle wedi'u trosglwyddo at swyddogion sy'n mynd i gyfarfodydd PACT lleol. Cododd y prif bryderon ynghylch parcio, ond cododd ymddygiad gwrthgymdeithasol, niwsans sŵn a gyrru ac yfed hefyd. Roedd polisi patrolio ar waith ac aeth swyddogion i'r safleoedd pan fônt ar agor.

Cylchredodd PC Davies ffotograffau o falen y safle ac ailadroddodd y gwrthwynebiadau gan yr Heddlu De Cymru. Nid oes gan reolwyr y safle brofiad o weithredu tan 2300 a byddai'r cais i amrywio yn cynyddu'r oriau trwyddedadwy o 8 awr yr wythnos i 77 awr yr wythnos. Roedd hyn yn debygol o gynyddu'r risg o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac anhrefn fyddai arwain at effaith negyddol ar amcanion trwyddedu.

Dywedodd Heddlu Datganiad Trwyddedu'r Cyngor na ddylai ardaloedd allanol achosi niwsans ac yr argymhellir awr orffen o 2100. Cododd pryderon am wydr yn yr ardal gyhoeddus a'r nifer annigonol o rwystrau wedi'i chynnig hefyd.

Mae'r GSD wedi dweud ei fod yn rheoli'r safle ar ei ben ei hun a'i fod yn dibynnu ar gefnogaeth gwirfoddolwyr. Mae cais am TCC ychwanegol wedi'i anwybyddu. Gofynnodd PC Davies, pe bai'r Is-bwyllgor am gymeradwyo'r cais, yna dylid ystyried atodi'r amodau wedi'u hawgrymu yn y sylwadau gan Heddlu De Cymru.

Gwrthwynebodd Mr Simon Thayer o'r adran Rheoli Llygredd yn gwrthwynebu'r cais ar sail atal niwsans i'r cyhoedd. Gwrthwynebodd yr adran Rheoli Llygredd i'r defnydd o'r ardal allanol gan fod posibilrwydd y byddai niwsans sŵn yn effeithio ar gymdogion cyfagos. Awgrymodd Mr Thayer oriau amgen ar gyfer y defnydd o'r ardal allanol.

<u>Sylwadau gan y Parti â Diddordeb</u>

Cododd y Cynghorydd Ford bryderon am niwsans cyhoeddus a diogelu plant rhag niwed.

Gwnaethpwyd John Walton, preswylydd lleol, ddatganiad. Cododd pryderon am barcio a gwerthu alcohol tan 2300. Credodd Mr Walton y byddai drysau a chorn ceir a lleisiau uchel yn achosi aflonyddwch ar ôl 2300 pe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo.

Nododd yr Amcanion Trwyddedu'r egwyddorion hanfodol ac mae angen i reolwyr y safle dangos yr hyn sy'n cael ei wneud i gadw at yr egwyddorion hynny. Dylai polisïau clir fod ar waith sy'n nodi risgiau a'u lleihau. Nid oedd ymgynghoriad rhwng yr ymgeiswyr a'r trigolion lleol.

Gan ymateb i gwestiwn gan yr Is-bwyllgor, dywedodd Mr Walton ei fod wedi tystio'n benodol problemau gyda sŵn a sbwriel. Credodd y byddai'r problemau hyn yn gwaethygu pe bai'r cais i agor yn hwyrach yn cael ei gymerawdyo.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Cyflwynodd Mr Brendan McAloon y cais. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai Clwb cymunedol yw Clwb Rygbi'r Tyllgoed sy'n cefnogi 200 o blant i chwarae rygbi ym mhob grŵp oedran. Roedd hefyd dimau i bobl dan 19 oed, i'r henoed, i gyn-filwyr ac i fenywod.

Mae'r clwb wedi bod yn ceisio gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion lleol. Mae ganddynt brydles 10 mlynedd ar yr adeilad sy'n cael ei adnewyddu ar hyn o bryd. Dyma pam nad yw'r camerâu TCC ychwanegol y gofynnwyd Heddlu De Cymru amdanynt wedi'u gosod eto. Ar hyn o bryd mae'r clwb yn negodi prydles 25 mlynedd ac i gymryd awenau'r gwaith o reoli'r parc.

Mae'r clwb yn glynu at brotocolau URC ac ni chaniateir alcohol ar ochr y cae ac felly ni chaniateir gwydrau y tu hwnt i'r ardal allanol. Caiff hyn ei reoli gan aelodai'r Pwyllgor a gwirfoddolwyr.

Dywedodd Mr McAloon y byddai'r Clwb yn derbyn yr holl amodau wedi'u nodi yn y sylwadau ysgrifenedig wedi'u derbyn gan Heddlu De Cymru.

Crynhoi

Dywedodd PC Davies fod Heddlu De Cymru yn annog cyfleusterau cymunedol ond byddai safle wedi'i redeg gan wirfoddolwyr tan 2300 yn codi pryderon. Byddai'r amodau wedi'u hawgrymu gan Heddlu De Cymru yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, nid oedd y rhwystrau wedi'u cynnig ar gyfer yr ardal allanol yn ddigonol o ran diogelwch y cyhoedd.

Ailadroddodd Simon Thayer, er mwyn atal niwsans cyhoeddus, y dylai'r Aelodau ystyried yr amodau y mae'r adran Rheoli Llygredd wedi gofyn amdanynt.

Dywedodd Mr McAloon y bydd Clwb Rygbi a Phêl-droed y Tyllgoed yn gwneud ei orau glas i reoli'r safle yn gyfrifol.

PENDERFYNWYD: Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu ei hun, cymeradwyodd yr Is-Bwyllgor y cais, yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt. Hefyd credodd yr Is-bwyllgor, er budd diogelwch y cyhoedd, atal trosedd ac anhrefn a niwsans cyhoeddus, y dylid atodi amod ychwanegol, fydd yn darllen:

'Ni chaniateir y defnydd o ardal allanol ychwanegol y safle (fel y disgrifir yn y cais Amrywio a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2018) ar gyfer yfed alcohol nes y bydd y ddau gamera ychwanegol y mae Heddlu De Cymru wedi gofyn amdanynt yn weithredol, a'r rhwystrau addas mewn cytundeb â Heddlu De Cymru wedi'u gosod.'

I alluogi'r defnydd o'r ardal allanol ychwanegol, penderfynodd yr Is-bwyllgor i ddileu amod 5 Atodiad 2 y Drwydded Safle sy'n cyfyngu ar faint yr ardal ar hyn o bryd.

## 26 : MATERION BRYS (OS O GWBL)

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 pm